1.69.

# HANES ALARUS

AM

# DDEUGAIN OND UN O GOLLIERS,

A GOLLASANT EU BYWYDAU

## YN MHWLL Y MORFA,

## ABERAFAN,

## Dydd Sadwrn, Hydref 17, 1863.

---

ENWAU Y PERSONAU.

**Thomas Lodwick, James Davies, John David, Thomas Williams, William Grey, John Thomas, Thomas Thomas, Thomas Morris, Thomas Hart, Nathaniel Williams, John Anford, John Bevan, William Evans, John Daniel, William Roberts, Henry Wilkins, John Edwards, Thomas Richards, William Lewis, William Jones, Peter Sutton, Joseph Johner, Humphrey Jenkins, David Mathews, Herbert Griffiths, Rees Williams, (sef chwech ar hugain, oll yn briod, a chanddynt deuluoedd lawer.) David Grey, David Morgan, Hopkin Richards, Samuel Davies, Benjamin James, Evan Morgan, William Hopkin, William Prosser, William Nicholas, John Tanner, Thomas Coxen, Joseph Stevens, Rees Williams, (sef tri-ar-ddeg o fechgyn ieuainc, y rhai oeddynt brif gynnaliaeth eu mamau.)**

---

Mor fynych y dygir newyddion
  Sy'n gwneuthur pob calon yn brudd,
Damweiniau a dirfawr golledion
  I glywed am danynt bob dydd;
Yr angau yn ysgar teuluoedd,
  A gwneuthur ugeiniau dan gur,
A lleisiau'r amddifaid a'r gweddwon
  Yn peri rhyw brudd-der trwy'r tir.

9256

Y ddamwain gerllaw Aberafan
  A dodda galonau o ha'rn,
Sef deugain ond un o law-weithwyr
  Ar unwaith yn myned i'r farn,
Y gwyr yn ymadael â'u gwragedd,
  Y tadau'n rhoi ffarwel i'r plant,
A brodyr a garent eu gilydd
  Gymerwyd o'r bywyd i bant.

Y gweithwyr aent allan y borau
  Heb deimlo un dychryn na braw,
Gan feddwl dychwelyd yn gynar,
  Heb dybied fod angau gerllaw;
Ond yn y prydnawn daeth y newydd
  A glwyfodd galonau pob gradd,
Fod agos i ddeugain o *golliers*
  Trwy'r ddamwain yn awr wedi'u lladd.

Pan welid y cyrff yn dod fyny,
  'Roedd rhai yn llewygu gerllaw,
A lleisiau y gwragedd a'r mamau
  Yn toddi'r calonau difraw;
'Roedd rhai wedi llosgi'n arswydus,
  A rhai wedi mogi yn lân,
A gorchwyl anhawdd eu hadnabod
  Gan effaith cynddeiriog y tân.

Fe redai y gwragedd mewn dychryn
  I edrych a welent eu gwyr,
A'r mamau mewn lludded ac ofnau
  A geisient eu meibion yn wir;

X20 S198197

Ond canfod eu hagwedd druenus
  A'u gwnaent yn alarus i gyd,
Y bywyd oedd wedi ymadael,
  A hwythau heb gâr yn y byd.

Fe drowd eu haneddau cysurus
  Yn llwm a thruenus eu gwedd,
Yn lle bod yn llanw y cornel,
  'Doedd dim ond eu hebrwng i'r bedd ;
Lle gynt y preswyliai gorfoledd,
  Yn awr yr oedd ochain a gwae,
Y gadair yn wag o'i pherchenog,
  A drysau pob anedd yn nghau.

Y weddw yn wylo am ei phriod,
  A'r plentyn yn galw am ei dad,
A'r fam wedi colli ei bachgen
  Yn wylo'n alarus trwy'r wlad ;
Perth'nasau mewn blinder a thrallod
  Am golli'u cydnabod teg wedd,
A'r ardal i gyd yn ei galar
  Am roddi'u cymdogion i'r bedd.

Y plant ant i'r drws yn y cyfnos
  I ddisgwyl dyfodiad eu tad,
Ond nid ydyw swn ei gerddediad
  I'w meddwl yn rhoddi mwynhad ;
Fe glywir y gwaith yn ei drydar,
  Fe welir y ffwrnes yn fflam,
Ond tad nid yw'n dychwel tuag adref,
  Rhaid byw yn nghyfeillach eu mam.

Mae tref Aberafan mewn galar,
Ni welwyd fath alar cyn hyn,
Cysuron yn llwyr wedi 'madael,
Och'neidio ac wylo trwy'r glyn ;
Ugeiniau a daflwyd i dlodi,
Cypbyrddau yn wag heb ddim bwyd,
Y galon o'r braidd wedi'i thori,
A'r gwyneb gan ddagrau yn llwyd.

O, Gymry, gwrandwch ar eu cwynion,
Os deuant ryw bryd at eich dor,
Cyfrenwch i'r rhai'n mewn cyfyngder
Ryw ran o gyflawnder eich stor ;
Cyflymwch i sychu eu dagrau,
Rhowch nodded i'r egwan a'r tlawd,
Y gwaelaf a'r gwanaf o honynt
A ddeilliant i gyd o'r un cnawd.

Cysurwch, cysurwch y gweddwon,
A phorthwch y mamau sydd flin,
Dilladwch y crwydraid amddifad
Wynebant y gwyntoedd a'r hin ;
Mae gwobr i bawb mewn addewid
Am roddi elusen i'r tlawd,
Am hyny cyfrenwch, cyfrenwch,
Bydd Crist i chwi'n gar ac yn frawd